# BARDD PLANT CYMRU

# YN 20 OED

Mae **Bardd Plant Cymru'n** gradur **rhyfedd**
(mae o'n haeddu bod mewn **SW**),
gall drawsnewid sut mae'n edrych
fel rhyw farddol **DDOCTOR WHO**.

Achos **weithiau** mae hi'n **fenyw**,
ac ***weithiau*** mae o'n ddyn,
mae'n gallu siarad iaith **SIR BENFRO**
efo acen gry' **Pen Llŷn**.

Mae o'n un sy'n dallt ein **hanes**,
mae hi'n un sy'n gweld **ymhell**,
gall *beintio* llun 'da geiriau,
a CHWALU muriau'r **GELL**.

Mae e'n gwybod shwt ma' **rapio**!
Gall *sgwennu* cân i godi'r to!
Mae o'n nabod **llwch y lonydd**,
ac mae'n hoffi odli... sbo!

Mae hi'n gweld drwy lygaid plentyn,
mae o'n nabod *chwedlau'r* fro,
mae e weithiau'n foi GOLYGUS...
dim ond weithiau... **nid bob tro**.

Bardd RHYNGWLADOL, bardd gogleisiol,
Bardd a'i cherddi'n **llenwi'r lle**,
bardd **llawn** gemau a phastynau,
bardd o'r GOGLEDD ac o'r De.

Ac mae'n **gwirioni** ar farddoni
(hyd yn oed ar fore Llun),
ac mae'n **UGAIN OED** eleni!
(Er bod e'n edrych tipyn hŷn.)

Ond er mor **hudol** ydi'r cradur
(mwy hudol, wir, na Dewi Sant),
mae yng Nghymru rai **difyrrach**
na'r un bardd... a nhw yw'r *plant*.

Plant sy'n **BERWI** o gwestiynau,
plant sy'n chwerthin wrth ddweud 'Pŵ'!
Plant a'u breichiau'n *SAETHU FYNY*
â brwdfrydedd cangarŵ.

Plant sy'n canfod ***RHYFEDDODAU***
yn y **DDINAS**, **gwlad** a **thre**,
plant sy'n dysgu i Fardd Plant Cymru
be 'di **BYW**, a be 'di be!

**Plant** sy'n odli. Plant sy'n holi.
Plant ddaw â ninnau at ein **COED**.
Plant sy'n **llenwi** bardd â gobaith.
Plant y **wlad fach** orau 'rioed.

**GRUFFUDD OWEN**

**HYDREF 2020**

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government
S4C
CYNGOR LLYFRAU CYMRU BOOKS COUNCIL of WALES
Urdd
BARDD PLANT CYMRU 20